CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 8fed o RAGFYR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Bedwyr Gwilym, Erwyn Jones, Mel Goch ap Meirion, Kevin Baldwin, Will G Roberts, Ronwen D Roberts, Mandy Williams-Davies, Mari Rees, Gareth W Jones a Gareth Roberts

9744/12/16 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Rory Francis

9745/12/16 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Annwen Daniels	9751/12/16 Ysgol Feithrin
Cynghorydd Mandy Williams-Davies	9751/12/16 Ysgol Feithrin
Cynghorydd Erwyn Jones	9751/12/16 Ysgol Feithrin

9746/12/16 WARD DIFFWYS A MAENOFFEREN

Croesawu'r Cynghorydd Gareth W Roberts fel aelod newydd ar gyfer ward Diffwys a Maenofferen.

PENDERFYNIAD: Bu i'r Cynghorydd Gareth Roberts gael ei groesawu fel cynghorydd newydd ar gyfer ward Diffwys a Maenofferen

9747/12/16 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Gareth Roberts ar ei swydd newydd.

Dymunwyd gwellhad buan i'r Clerc

Llongyfarchwyd Llechwedd a Zip World ar eu gwobr ar eu defnydd o dechnoleg

Llongyfarchwyd Louise Davies ac Emma Owen ar eu gwobr gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9748/12/16 MATERION YR HEDDLU

Nid oedd aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9749/12/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 10fed TACHWEDD 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

9750/12/16 CYFRIFON I'W TALU

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	113.38	Rhif Siec.	002344
Blachere Illumination	£	10,315.20	Rhif Siec.	002345
Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002346
J P Farrington (Garddio)	£	905.00	Rhif Siec.	002351
Ifan ac Idris (Llwybrau cyhoeddus)	£	4860.00	Rhif Siec.	002352
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002353
BT (Band eang)	£	32.58	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffon)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	182.50	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9751/12/16 ARIAN I FEWN

Ad-daliad TAW £1725.97

9752/12/16 CAIS ARIANNOL

Datgan Diddordeb

Cynghorydd Annwen Daniels
Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Cynghorydd Erwyn Jones

Ysgol Feithrin	£	300.00	Rhif Siec.	002357

9753/12/16 PWYLLGOR MWYNDERAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau Nos Iau 17eg Tachwedd 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 17eg TACHWEDD 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Ronwen Roberts
Kevin Baldwin.

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis

Y Cynghorydd Erwyn Jones yn cofnodi.

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Siôn Corn
Argymell: caniatáu i Siôn Corn gael defnyddio'r Siambr ar gyfer ei grotto, Noson Goleuo Stiniog 1af Rhagfyr 2016

2. Adroddiad Caeau Chwarae
Argymell: I holi archwilydd y caeau chwarae beth yn union yw'r "difrod i'r Plannu" yn y caeau chware? (Ac eithrio'r Parc Sglefrio a chae Bryn Coed)

3. Arolwg Etholaethau Seneddol
Argymell: Teimlwyd oherwydd nodwedd wledig Gogledd Cymru y dylid gwrthwynebu unrhyw newid i ffiniau'r etholaethau presennol. Teimlwyd y byddai etholaethau mwy yn peri straen ar amser yr Aelod Seneddol, a byddai ei allu i gynnal cymorthfeydd rheolaidd a'r etholwyr yn anodd.

4. Newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal Llwybrau Cyhoeddus
Argymell:

4.1 I dderbyn gwybodaeth y llythyr.
4.2 ymateb i'r holiadur.

1. Beth fyddai effaith colli rhagor neu'r cyfan o'r ad-daliad blynyddol ar gyfer cynnal llwybrau yn eich ardal?
   Ateb: Effaith sylweddol i lwybrau'r ardal.
2. Ydy'ch Cyngor yn bwriadu codi arian yn benodol i gwrdd â'r gost o gynnal llwybrau cyhoeddus?
   Ateb: Ydym (drwy'r praesept).
3. Os nad ydych am godi arian ydi'ch Cyngor yn barod i glustnodi rhan o'ch cyllideb tuag at waith cynnal llwybrau cyhoeddus?
   Ateb: Ydym.
4. Oes yna lwybrau o fewn eich cymuned rydych yn teimlo sy'n allweddol i'r ardal ac sydd rhaid eu cynnal ond mae'n annhebyg bydd gennych y cyllid i'w cynnal (bydd y Cyngor yn parhau i gynnal y Llwybr Arfordir)
   Ateb: Oes. Eu bod i gyd yn hanfodol i ddiwydiant ymwelwyr yr ardal, sydd mewn ffyniant dros y blynyddoedd diwethaf.
5. A fyddech yn fodlon cydweithio gyda Chyngor Cymuned neu Dref gyfagos er mwyn rhannu adnoddau cynnal llwybrau?
   Ateb: Byddem yn barod i gysidro.
6. Nodwch unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â sut gall eich Cyngor Cymuned/Tref gyfrannu at gynnal llwybrau cyhoeddus?
   Ateb: Teimlad y Cyngor yw ein bod dros y blynyddoedd wedi bod yn flaenllaw drwy gynnal a chadw Llwybrau Cyhoeddus ein hardal, ond byddem yn fodlon cyd-weithio gyda mudiadau lleol, megis Y Dref Werdd, ac eraill, i barhau a'r dyletswyddau hyn.

5. Llwybrau Llechi.

7.1. I Gynghorwyr Ward gael copi map o'r llwybrau, er mwyn darganfod pwy yw perchnogion y tiroedd bydd y llwybr arfaethedig yn ei groesi.

7.2. I ohebu a'r "Gŵr o Benmachno" (neb yn cofio ei enw yn y cyfarfod!), er mwyn cael copi gwell o'r map sy'n dynodi ple yn union bydd y Llwybr Llechi yn ei groesi yn ein hardal, erbyn y 15fed o Ragfyr, os yn bosib.

6. Palmentydd y Dref

I gysylltu â Chyngor Gwynedd parthed palmantau llithrig yn y Dref, yn arbennig y palmentydd newydd, a'r palmant ger "Y Cwm", gyda'r posibilrwydd o'u golchi gyda "jet-wash". Mae hyn yn dilyn cwynion gan y cyhoedd i Gynghorwyr.

Daeth y cyfarfod i ben 8yh.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio.

9754/12/16 CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1053/03/LL
   Ymgeisydd I Moore
   Y Graig
   Sgwâr y Farchnad
   Heol yr Eglwys
   Blaenau Ffestiniog
   'Cynllun Safle Bwriadedig' a 'Datganiad Dyluniad a Mynedfa' diwygiedig a dderbyniwyd ar 16/11/16
   Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C16/1053/03/LL
   Ymgeisydd Vodafone Ltd
   Tir ger Y Ddol
   Tanygrisiau
   Gosod polyn gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m uchder yn amgylchynu
   Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU AR GYFER CYNGOR CYN CYFLWYNO CAIS

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1288/03/YM
   Ymgeisydd C Robinson
   Gweithdai Glanypwll
   Glanypwll
   Blaenau Ffestiniog
   Cyngor cyn cyflwyno cais - trosi i dŷ

2. Cais Cynllunio Rhif C16/1495/03/YM
   Ymgeisydd G Jordan & D Jones
   Bryn Mair
   Trem Hyfryd
   Tanygrisiau
   Cyngor cyn cyflwyno cais - newidiadau i do ystafell haul

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1498/03/DA
   Ymgeisydd Mr. J. Edwards-Leaney
   97 Ffordd Manod
   Blaenau Ffestiniog
   Cais am ddiwygiad ansylweddol i gais a ganiatawyd yn flaenorol o dan gyfeirnod C13/0831/03/LL trwy newid ffurf talcen yr estyniad fel a ganiatawyd

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/785A
   Ymgeisydd Mr. A Pritchard
   Hanemoos
   2 Bron Ddwyryd
   Ffestiniog
   Gosod ffenestri to i'r edrychiad ffrynt, drychiad cefn a tho'r ystafell molchi
   Caniatáu

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9755/12/16 RHEOLIADAU ARIANNOL

Derbyn Rheoliadau Ariannol (Cymru) wedi eu hadolygu a'u haddasu ar gyfer anghenion y Cyngor Tref gan y Cyngor gyda newid i'r Rheol 3.2 i ddarllen -

Rhaid i'r SAC bob blwyddyn, ac erbyn diwedd mis Ionawr man pellaf, baratoi amcangyfrifon manwl o bob derbyniad a thaliad, gan gynnwys y defnydd o weddillion a phob ffynhonnell ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol ar ffurf cyllideb i'w hystyried gan Bwyllgor Adnoddau'r cyngor.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y Rheoliadau Ariannol

9756/12/16 CYNGOR GWYNEDD - PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Biniau Halen

Er bod yr union gost o gyflenwi'r bin halen yn medru amrywio'n sylweddol, mae Cyngor Gwynedd yn awr mewn sefyllfa i gadarnhau'r canlynol -
Llenwi pob bin yn y gymuned cyn y gaeaf: £40 y bin (i gychwyn haf 2017)
Ail lenwi bin ar gais y gymuned yn ystod y gaeaf: £60 y bin (1 Hydref - 30 Ebrill)

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9757/12/16 IECHYD

Ni chafwyd unrhyw drafodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9758/12/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Mae'r broses o greu gwefan y Cyngor Tref yn mynd rhagddo a'r gobaith yw y bydd y Cynghorwyr yn derbyn 'gwefan ffug' yn fuan fel y gall newidiadau gael eu gwneud cyn i'r wefan fynd yn fyw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9759/12/16 PARTNERIAETH Y PARC

Gofynnodd y Cynghorydd Bedwyr Gwilym am ganiatâd i holi garddwr y Parc am ddefnydd o Pla-leiddiad

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd y caniatâd

9760/12/16 CAEAU CHWARAE

Dim i'w adrodd/drafod

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ail drefnu Pwyllgor Mwynderau 10fed Ionawr 2017 am 7.00 o'r gloch yn y Siambr.

9761/12/16 LLWYBR CYHOEDDUS 37

Bu i'r Cyngor drafod llythyr gan Mr David Taylor parthed bont ar y llwybr yma.

PENDERFYNIAD: I ohebu a Mr David Taylor yn diolch iddo am ei lythyr ond egluro nad ydym mewn sefyllfa ariannol i gynnig cymorth. I gysylltu â Mrs Liz Haynes, Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r llwybr.

9762/12/16 SWYDDFA'R BOST

Trafod penderfyniad y Swyddfa Bost i symud i adeilad newydd a moderneiddio'r gangen

PENDERFYNIAD: Cododd y Cynghorydd Mel Goch ap Meirion am bryderon gan y cyhoedd bod y safle 'allan o ffordd', a'i bod yn bechod bod y gwasanaeth yn symud o ganol y dref.
Canmolwyd bod y gwasanaeth newydd yn well - e.e. agor ar y Sul, hefyd bod lefel y gwasanaeth yn aros yr un fath.
I ddiolch i'r Post Feistr presennol drwy lythyr am ei wasanaeth hir a diflino i'r gymuned gyfan.

9763/12/16 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith Rhagfyr 2016

Di-ddosbarth	Bryn Coed	Newid colofnau
Di-ddosbarth	Cae Clyd	Newid colofnau

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9764/12/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Cynghorydd Mandy Williams-Davies - y cais loteri yn dal ymlaen yn oll gobeithio adrodd mwy mis nesaf.

Cyfarfod gyda'r Dref Werdd - cyfarfod positif iawn ynglyn a phrosiectau yn yr ardal.

Nodi gair o ddiolch i Mr Peter Roberts, Cyngor Gwynedd, am ei gymorth amhrisiadwy parthed y goleuadau Nadolig.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9765/12/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies i yrru'r wybodaeth ymlaen - mwy i adrodd am gais Treftadaeth Llechi mis nesaf gobeithio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9766/12/16 CHWARAE DROS GYMRU

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Dymunodd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Annwen Daniels Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cofnodwyd yn absenoldeb Clerc y Dref gan y Cynghorydd Erwyn Jones.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.04y.h.

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 12fed IONAWR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 12fed IONAWR 2017
AR YR 5ed IONAWR 2017